## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 8fed Mehefin 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Ar-lein / Siambr, Penmorfa |
| **TEITL:** | Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (17.03.23) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Ddim yn berthnasol |

**CEFNDIR:**

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn Llywodraeth Cymru – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y **Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**.

Annex B Welsh.docx

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- *Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.*
- *Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.*
- *Er mwyn i Fforymau / Cynghorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn.*
- *Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.*
- *Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da.* ***Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion s'yn gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuenctid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid bellach yn cael eu cynnal nol yn y Siambr ym Mhenmorfa.

| | |
|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Cydbwyso angen tymor byr â chynllunio tymor hir ar gyfer y dyfodol<br>**Cydweithio:** Ystyried sut y gall llesiant pobl ifanc effeithio ar bob un o'r nodau llesiant<br>**Cynnwys:** Gweithio gydag eraill i greu cyfleoedd i bobl ifanc<br>**Atal:** Cynnwys pobl ifanc a cheisio eu barn<br>**Integreiddio:** Darparu ymyrraeth gynnar i leihau problemau rhag datblygu |

**ARGYMHELLION:**

Cyflwyno cofnodion cyfarfod diwethaf Cyngor Ieuenctid Ceredigion i Bwyllgor Trosolwg a Craffu Cymunedau Dysgu a Cabinet, er gwybodaeth.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lowri Evans |
| **Swydd:** | Rheolwraig Tim – Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 10fed Mai 2023 |
| **Acronymau:** | Dim |